**Rhif: WG38370**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Arddangosfeydd Anifeiliaid

Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020

Dyddiad cyhoeddi: 29 Awst 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 21 Tachwedd 2019

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.

OGL © Crown Copyright

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020 yn darparu cynllun trwyddedu ar gyfer yr holl arddangosfeydd anifeiliaid sy'n bodloni meini prawf penodol. Mae arddangosfeydd anifeiliaid yn amrywiol, a does dim trefn drwyddedu safonol na gofyniad ar gyfer arolygiad arferol ar hyn o bryd. O ganlyniad, ceir pryderon na ellir gwarantu safonau lles.<br><br>Yn dilyn ymgynghoriad 2017, fe wnaeth Lesley Griffiths y Gweinidog Amgylchedd a Materion Gwledig ar y pryd, gyhoeddi ei bwriad ym mis Rhagfyr 2017 i gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer arddangosfeydd anifeiliaid teithiol yng Nghymru. Yn dilyn adolygiad o gwmpas y polisi ym mis Ebrill 2019, penderfynwyd cynnwys yr holl arddangosfeydd anifeiliaid sy'n bodloni meini prawf penodol.<br><br>Bydd y cynllun trwyddedu yn darparu ar gyfer cynnal archwiliadau er mwyn sicrhau bod safonau lles da yn cael eu cynnal a bod anifeiliaid yn cael eu harddangos mewn ffordd sy'n annog agweddau parchus a chyfrifol tuag at bob rhywogaeth.<br><br>Bydd y dull hwn yn cyflwyno cynllun a fydd yn cael effaith barhaol ar les anifeiliaid wedi'u harddangos ac o ran agweddau tuag at genedlaethau'r dyfodol o anifeiliaid yma yng Nghymru. |
| **Sut i ymateb** | Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn naill ai trwy ddefnyddio'r holiadur yng nghefn y ddogfen hon, llenwi holiadur ar-lein, neu drwy ysgrifennu at y tîm gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gallwch wneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>I weld yr ymgynghoriad ar-lein, gan gynnwys holiadur i gyflwyno i gyflwyno'ch ymateb, ewch i [llyw.cymru/ymgynghoriadau](llyw.cymru/ymgynghoriadau) |

| | |
|---|---|
| **Manylion cyswllt** | Rhagor o wybodaeth: |

**Cyfeiriad:**

Y Gangen Fframwaith a Lles Anifeiliai9d
Swyddfa'r Swyddog Milfeddygol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**E-bost**: WAHFG@llyw.cymru

**Ffôn**: 03000 257961

## Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu

Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

**Lle rydym ni arni nawr?**

Mae Arddangosfeydd Anifeiliaid yn faes amrywiol, ac ar hyn o bryd does dim trefn drwyddedu safonol na gofyniad ar gyfer arolygiad arferol. Felly, go brin fod safonau lles llawer o anifeiliaid sy'n cael eu harddangos yng Nghymru yn cael eu hasesu'n rheolaidd.

Mae'r *Performing Animals (Regulation) Act 1925* yn ei gwneud yn ofynnol i gofrestru anifeiliaid perfformio gydag awdurdodau lleol. Yn aml, fodd bynnag, does gan gofrestriadau ddim dyddiad gorffen, sy'n golygu ei bod hi'n anodd nodi faint o anifeiliaid sy'n dal i berfformio yng Nghymru, ac nid oes unrhyw ofynion arolygu penodol. Hefyd, nid yw'r Ddeddf yn diffinio ystyr 'anifail sy'n perfformio'. Oherwydd hyn, mae'r dull o orfodi'r ddeddfwriaeth hon yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall.

Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 ("Deddf 2006") yn rhoi dyletswydd ar unrhyw un sy'n gyfrifol am anifail i sicrhau ei les.  Rhaid i'r unigolyn gymryd camau rhesymol dan yr holl amgylchiadau i sicrhau bod anghenion anifeiliaid yn cael eu diwallu. Mae Adran 13 (7) o Ddeddf 2006 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno cynlluniau trwyddedu sy'n hyrwyddo lles anifeiliaid, drwy reoliadau.

Awgrymodd arolwg yn 2016 a gynhaliwyd gan y Captive Animal Protection Society for Great Britain (GB)[1] bod tua 188 o sŵau teithiol ym Mhrydain a saith 'fferm symudol' gyda rhyw 3,750 o anifeiliaid rhyngddynt. Mae dadansoddiad rhagarweiniol o symudiadau'r anifeiliaid hyn yn dangos eu bod yn teithio i bob cwr o Brydain. Defnyddir amrywiaeth sylweddol o anifeiliaid, gan gynnwys rhywogaethau egsotig fel malwod tir Affricanaidd, ceirw, pengwiniaid, dreigiau barfog, nadroedd ŷd, sgorpionau, tarantwlas, camelod a chrocodeiliaid. Mae 'digwyddiadau' yn cynnwys sgyrsiau i ysgolion/sefydliadau addysgol, pecynnau parti, archebion corfforaethol a ffeiriau. Gallai arddangosfeydd anifeiliaid o'r math hwn ddod o fewn cwmpas y cynllun trwyddedu arfaethedig, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol pob endid.

Yn 2017, aeth awdurdodau lleol Cymru ati i gynnal prosiect cyflawni mewn partneriaeth gyda'r nod o gael rhagor o wybodaeth am nifer a'r math o arddangosfeydd teithiol o anifeiliaid (MAEs) ar waith yng Nghymru. Nodwyd bod 53 o arddangosfeydd anifeiliaid teithiol i gyd (pump yn y Gogledd, 13 yn y De, 10 yng Ngwent a 25 yn Nyfed-Powys) a bod natur yr arddangosfeydd hyn yn cynnwys hebogwyr, arddangosfeydd anifeiliaid egsotig, anifeiliaid ar gyfer setiau ffilm ac arddangosiadau ceffylau.[2] Mae gwaith ar droed nawr i fesur nifer yr arddangosfeydd teithiol o anifeiliaid Cymru sy'n bodloni'r diffiniad arfaethedig.

Hefyd yn 2017, cynhaliwyd ymgynghoriad ar gyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru ar gyfer arddangosfeydd teithiol o anifeiliaid. Gofynnwyd hefyd am safbwyntiau ar wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau. Cafwyd cefnogaeth lethol gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad o blaid gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau, a'r llynedd, cynhaliodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ymgynghoriad ar Fesur drafft gyda'r nod o ymdrin â'r pryderon moesegol hyn. Denodd yr ymgynghoriad dros 6,500 o ymatebion ac, unwaith eto, roedd y mwyafrif llethol o blaid cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon.[3] Aeth y Gweinidog ati i gyflwyno'r Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 8 Gorffennaf 2019. Diben y Bil yw ei gwneud yn drosedd i anifail gwyllt gael ei ddefnyddio mewn syrcas deithiol. Ni fydd y Bil yn effeithio ar y defnydd o anifeiliaid dof mewn syrcasau teithiol, nac yn atal anifeiliaid gwyllt rhag cael eu defnyddio ar

[1] http://www.captiveanimals.org/mobile-zoos-and-live-animal-parties
[2] https://llyw.cymru/arddangosfeydd-teithiol-o-anifeiliaid
[3] https://llyw.cymru/bil-anifeiliaid-gwyllt-mewn-syrcasau-teithio

gyfer adloniant mewn lleoliadau eraill. Gallwch ddilyn hynt y Mesur trwy broses graffu'r Cynulliad ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.[4]

### Y sefyllfa mewn gwledydd eraill

Yn Lloegr, daeth Animal Welfare (Licensing of Activities Involving Animals) (England) Regulations 2018[5] ("Rheoliadau 2018") i rym ar[1] Hydref 2018. Roedd Rheoliadau 2018 yn diweddaru'r system drwyddedu yn Lloegr ar gyfer pum gweithgaredd yn ymwneud ag anifeiliaid, gan gynnwys cadw neu hyfforddi anifeiliaid i'w harddangos. Yr awdurdodau lleol fydd yn gorfodi'r system drwyddedu a fydd yn sicrhau safonau gofynnol Rheoliadau 2018. Mae Rheoliadau 2018 yn digwygio Performing Animals (Regulation) Act 1925 trwy ddiddymu'r gofyniad cofrestru o dan y Ddeddf yn Lloegr.

Yn ei rhaglen lywodraethu 2018-19[6] cadarnhaodd Llywodraeth yr Alban y bydd yn dal ati i gyflwyno a diwygio'r gwaith o drwyddedu gweithgareddau anifeiliaid, gan gynnwys defnyddio anifeiliaid mewn arddangosfeydd cyhoeddus neu berfformiad.

### Beth fydd y ddeddfwriaeth yn ei wneud?

Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth (drwy gyfrwng Rheoliadau) i hyrwyddo lles anifeiliaid o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006[7]. Bydd Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020 yn cyflwyno gofyniad arddangos anifeiliaid sy'n bodloni meini prawf penodol i gael eu trwyddedu gan eu hawdurdod lleol. Bydd trwyddedau'n destun rhai amodau. Bydd canllawiau statudol yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth.

Fel rhan o'r cynllun trwyddedu hwnnw, cynigir bod amod yn cael ei gynnwys mewn trwyddedau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i arddangosfeydd anifeiliaid trwyddedig hybu addysg ac ymwybyddiaeth y cyhoedd, lle bo modd, ac agweddau parchus a chyfrifol, mewn perthynas â'r rhywogaethau a gedwir. Y nod yw annog perchenogaeth gyfrifol a pharch at anifeiliaid. Cafodd y dull hwn, sy'n dilyn gofyniad hirsefydlog ar gyfer sŵau trwyddedig, groeso gan ymgynghoriad 2017[8] ac mewn cyfres o weithdai rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn 2018, gyda llawer o ymatebion yn awgrymu bod hyn eisoes yn digwydd mewn llawer o arddangosfeydd anifeiliaid.

Cynigir hefyd bod y Rheoliadau'n diwygio darnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n bodoli'n barod, sef drwy ddiddymu'r Performing Animals (Regulation) Act 1925[9] o safbwynt Cymru. Os yw arddangosfeydd anifeiliaid sefydlog a theithiol yn ddarostyngedig i'r drefn drwyddedu newydd, bydd Deddf 1925 yn cael ei dileu. Mae hyn yn dilyn y dull a gymerwyd yn Lloegr.

---

[4] http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=25643
[5] https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2018/9780111165485
[6] https://www.gov.scot/publications/delivering-today-investing-tomorrow-governments-programme-scotland-2018-19/
[7] www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/45/contents
[8] https://llyw.cymru/arddangosfeydd-teithiol-o-anifeiliaid
[9] www.legislation.gov.uk/ukpga/5/15/contents

## Tystiolaeth ar gyfer newid

Mae Llywodraeth Cymru a sefydliadau lles anifeiliaid yn poeni nad yw lles rhai anifeiliaid sy'n cael eu harddangos yn cael ei asesu fel mater o drefn.

Ym mhroses ymgynghori Llywodraeth Cymru 2017 a nodwyd uchod, gofynnwyd am farn ar gynigion i gyflwyno system drwyddedu neu gofrestru ar gyfer arddangosfeydd anifeiliaid yng Nghymru. Cafwyd 70 o ymatebion cynhwysfawr, gyda'r mwyafrif o blaid cyflwyno'r cynllun, a'r rhan fwyaf o blaid trwyddedu yn hytrach na chofrestru.

Yn ystod hydref 2018, cynhaliwyd saith gweithdy i randdeiliaid ledled Cymru er mwyn trafod y cynnig i gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer arddangosfeydd anifeiliaid teithiol. Cynrychiolwyd 41 o sefydliadau yn y gweithdai a chafwyd trafodaeth agored ar yr amcan o hyrwyddo lles anifeiliaid, gan gofio'r angen am gymesuredd - ar gyfer sector sy'n cynnwys busnesau bach yn bennaf ac awdurdodau gorfodi sydd, ers blynyddoedd lawer, wedi ymdopi â llai o adnoddau. Cyflwyno cynllun trwyddedu gafodd y gefnogaeth fwyaf o bell ffordd, yn enwedig y cyfle i annog agweddau parchus a chyfrifol at anifeiliaid yn y dyfodol.

Mynegwyd pryderon am y tebygrwydd rhwng syrcasau teithiol ac arddangosfeydd anifeiliaid teithiol eraill. Er bod rhai nodweddion tebyg, o ran y ffaith fod anifeiliaid yn cael eu cludo a'u harddangos ar gyfer adloniant, nid oes yr un gwrthwynebiadau moesegol sylfaenol gan aelodau'r cyhoedd i'r defnydd o anifeiliaid mewn arddangosfeydd eraill ag sydd ar gyfer defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol. Mae gwahaniaethau o ran y mathau o rywogaethau sy'n cael eu cadw, yr amodau cadw a sut y cânt eu defnyddio neu eu harddangos. Bydd y Rheoliadau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at sicrhau safonau lles anifeiliaid sy'n cael eu harddangos, gan gynnwys y rhywogaethau dof a fydd yn parhau i gael eu defnyddio mewn syrcasau teithiol, eu bod yn cael eu rheoleiddio ac yn destun safonau penodol.

<u>Casgliad</u>

Er mai arddangosfeydd anifeiliaid teithiol oedd canolbwynt gwreiddiol y polisi hwn, o gofio'r newidiadau deddfwriaethol a amlinellwyd ac ystyriaeth drylwyr o'r dystiolaeth a gyflwynwyd, mae'n amlwg os yw ffocws y cynllun trwyddedu wedi'i gyfyngu i arddangosfeydd teithiol, yna efallai na fydd safonau lles anifeiliaid a ddefnyddir mewn arddangosfeydd sefydlog yn cael y lefel gyffelyb o graffu. Credwn nad yw'r anghysondeb hwn yn dderbyniol, felly ehangwyd cwmpas y rheoliadau i gynnwys yr holl arddangosfeydd anifeiliaid sy'n bodloni'r meini prawf penodol fel rhan o'r gyfraith.

## Y Cwestiynau

Dros y dudalen, rydym wedi cynnwys rhestr o gwestiynau gyda'r nod o sicrhau bod y Rheoliadau drafft a'r canllawiau cysylltiedig yn gadarn a chymesur. Hefyd, rydym yn gofyn am dystiolaeth ar amrywiaeth o faterion i'n helpu i asesu effaith y Rheoliadau ar fywydau pobl Cymru. Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl i ategu'ch atebion.

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost/Rhif ffôn:

Eich gwlad breswyl:

**Cwestiwn 1:** Mae Rheoliad 3 yn dweud mai ystyr 'gweithgaredd trwyddedig' (licensable activity) er mwyn canfod a yw rhywbeth yn weithgaredd trwyddedig, yw:

(a) cadw anifeiliaid yng Nghymru pan fo'r anifeiliaid hynny yn cael eu defnyddio i'w harddangos at ddibenion addysgol neu adloniant,

(b) hyfforddi anifeiliaid yng Nghymru pan fo'r anifeiliaid hynny yn cael eu defnyddio i'w harddangos at ddibenion addysgol neu adloniant, neu

(c) arddangos anifeiliaid yng Nghymru at ddibenion addysgol neu adloniant.

(2) Caniateir cynnal y gweithgaredd trwyddedadwy gyda thâl neu heb dâl.

(3) Mae arddangos anifeiliaid at ddiben y gweithgaredd trwyddedadwy yn cynnwys—

(a) arddangos anifeiliaid i unrhyw gynulleidfa sy'n bresennol, a

(b) recordio delweddau gweledol o'r anifeiliaid drwy unrhyw ddull technolegol sy'n galluogi arddangos y delweddau hynny.

Os yw rhywbeth yn weithgaredd trwyddedig, bydd angen trwydded er mwyn cyflawni hynny.

Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad hwn? Rhowch resymau am eich ateb.

Ysgrifennwch yma:

**Cwestiwn 2:** Mae rheoliad 3(4) yn rhestru nifer y gweithgareddau esempt y cynigir na fyddant yn ddarostyngedig i'r cynllun trwyddedu hwn. Felly, ni fydd angen trwydded ar gyfer y gweithgareddau esempt fel a ganlyn:

(a) "cadw anifeiliaid yn bennaf at ddibenion ffermio llaeth a bridio da byw[10] a'u cadw,
(b) cadw neu hyfforddi anifeiliaid at ddibenion milwrol neu ddibenion yr heddlu,
(c) cadw neu hyfforddi anifeiliaid at ddibenion chwaraeon,
(d) anifeiliaid sy'n dangos ymddygiad wedi ei ddysgu sy'n cael eu dysgu at ddibenion gwaith,
(e) unrhyw weithgaredd a ganiateir o dan drwydded ar gyfer sw o dan Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981,
(f) cadw siop anifeiliaid anwes o dan drwydded a roddir o dan adran 1(1) o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951, neu
(g) unrhyw weithgaredd a ganiateir o dan drwydded ar gyfer sefydliad marchogaeth o dan Ddeddf Sefydliadau Marchogaeth 1964."

Ydych chi'n cytuno â'r esemptiadau hyn? Allwch chi feddwl am weithgaredd a fyddai'n rhan o'r esemptiadau, ac a ddylai gael ei gynnwys yng nghwmpas y cynllun trwyddedu? Allwch chi feddwl am weithgaredd a fyddai'n rhan o ddiffiniad presennol o arddangos anifail, y dylid ei esemptio? Rhowch dystiolaeth i gefnogi'ch sylwadau.

Ysgrifennwch yma:

**Cwestiwn 3:** Rydym yn cynnig y dylai'r holl arddangosfeydd anifeiliaid sy'n bodloni'r meini prawf trwyddedu gael eu trwyddedu, p'un ai ydynt yn codi tâl am yr arddangosfa honno ai peidio h.y. gall fod yn berthnasol i unigolion, busnesau, elusennau neu endidau dielw eraill. Dyma sy'n cael ei ystyried yn briodol, gan mai bwriad y Rheoliadau yw sicrhau bod safonau lles anifeiliaid yn cael eu bodloni, ac mae hyn yn wir waeth a yw'r gweithgaredd yn digwydd er mwyn gwneud elw neu beidio. Ydych chi'n cytuno â'r dull hwn? Rhowch resymau dros eich ateb.

Ysgrifennwch yma:

**Cwestiwn 4:** Nid yw'r diffiniad cyfredol o weithgaredd trwyddedig yn esemptio pobl sydd ond yn arddangos eu hanifeiliaid unwaith neu ddwy y flwyddyn. Os yw gweithgaredd yn perthyn i ddiffiniad 'gweithgaredd trwyddedig' yna mae angen trwydded. Ydych chi'n cytuno â'r dull hwn? Os nad ydych chi, a ddylid cyflwyno trothwy sy'n nodi sawl gwaith y gall rhywun arddangos anifeiliaid cyn bod angen trwydded? Beth fyddai trothwy priodol? Ydych chi'n teimlo bod modd gorfodi hyn? Rhowch resymau dros eich ateb.

Ysgrifennwch yma:

---

[10] At ddibenion y rheoliad hwn, mae "da byw" yn cynnwys unrhyw greadur a gedwir i gynhyrchu bwyd, gwlân, crwyn neu ffwr, neu at ddibenion ei ddefnyddio wrth ffermio tir.

**Cwestiwn 5:** Bydd goblygiadau o ran costau yn gysylltiedig â'r cynllun trwyddedu hwn yn yr ystyr y bydd y sawl sy'n gwneud cais am drwydded yn gorfod talu ffi i'r awdurdod lleol perthnasol ac, er enghraifft, y bydd angen i'r sawl sy'n gwneud y cais wella ei gyfleusterau er mwyn bodloni amodau'r drwydded.

Bydd awdurdodau lleol hefyd yn wynebu costau er mwyn rheoli'r cynllun trwyddedu. Er y dylai'r ffi drwyddedu wneud iawn am y costau hyn, gall costau gorfodi parhaus fod yn uwch mewn rhai achosion.

Hefyd, efallai y bydd angen talu costau'r system gyfiawnder os caiff erlyniadau neu apeliadau eu dwyn ymlaen.

Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth o effeithiau ariannol posib, ar arddangoswyr ac awdurdodau lleol fel ei gilydd, ac ar unrhyw unigolion neu sefydliadau eraill a allai gael eu heffeithio yn sgil y cynllun trwyddedu arfaethedig. Rhowch resymau dros eich ateb.

Ysgrifennwch yma:

**Cwestiwn 6:** Hoffem wybod eich barn ar unrhyw effeithiau eraill y rhagwelwch y gallai'r Rheoliadau drafft eu cael ar y system gyfiawnder. Mae hyn yn cynnwys gweithredwyr arddangosfeydd anifeiliaid (er enghraifft, os ydynt yn cael eu herlyn am beidio â bod yn drwyddedig neu am dorri amod trwydded); awdurdodau lleol fel yr awdurdod gorfodi; y system llysoedd; ac unrhyw bobl neu sefydliadau eraill a all gael eu heffeithio yn eich tyb chi.

Pa effeithiau fyddai'r rhain yn eich barn chi:

Ysgrifennwch yma:

**Cwestiwn 7:** Teimlwn fod y cynllun trwyddedu'n cynnig cyfle i ddiwydiant twristiaeth Cymru, y mae arddangosfeydd anifeiliaid yn rhan bwysig ohono. Bydd y cynllun trwyddedu yn sicrhau bod yr holl arddangosfeydd anifeiliaid trwyddedig yn bodloni'r un safonau lles ac yn dangos i ymwelwyr ein bod ni'n genedl sy'n hoffi anifeiliaid ac sy'n cymryd lles anifeiliaid sy'n cael eu harddangos o ddifrif. Hoffem gael eich barn ar effeithiau posibl y Rheoliadau drafft, yn enwedig ar fusnesau, pobl a chymunedau gwledig. Beth fyddai'r effeithiau hyn?

Ysgrifennwch yma:

**Cwestiwn 8:** Mae Atodlen 1 o'r Rheoliadau yn cynnwys rhestr o amodau'r drwydded sy'n rhaid ei hatodi wrth bob trwydded a roddir ar gyfer gweithgaredd trwyddedig. Oes unrhyw amodau nad ydynt yn briodol yn eich barn chi, neu unrhyw amodau y byddech yn disgwyl iddynt gael eu cynnwys ond heb eu cynnwys? Ydy amodau'r drwydded yn cynnig digon o hyblygrwydd, o safbwynt gweithredol a gorfodi? Rhowch gymaint ag sy'n bosib o resymau i gadarnhau'ch barn.

Ysgrifennwch yma:

**Cwestiwn 9:** Mae Atodlen 2 o'r Rheoliadau yn cynnwys manylion am rai nad ydynt yn cael gwneud cais am drwydded. Mae'n cynnwys pobl â thrwydded wedi'i dirymu, neu wedi'u hanghymhwyso, o dan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020;
- Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014;
- The Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses (England) Regulations 2012;
- The Welfare of Animals Act (Northern Ireland) 2011;
- The Welfare of Racing Greyhounds Regulations 2010;
- Animal Welfare Act 2006;
- Animal Health and Welfare (Scotland) Act 2006;
- Dangerous Dogs Act 1991;
- Dogs (Northern Ireland) Order 1983;
- Dangerous Wild Animals Act 1976;
- Breeding of Dogs Act 1973;
- Riding Establishments Act 1964;
- Animal Boarding Establishments Act 1963;
- Pet Animals Act 1951;
- Protection of Animals (Amendment) Act 1954;
- Performing Animals (Regulation) Act 1925;
- Protection of Animals Act 1911;
- Animal Welfare (Licensing of Activities Involving Animals) (England) Regulations 2018;
- Zoo Licensing Act 1981.

Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu hwn? A ddylid cynnwys unrhyw ddeddfwriaeth arall? Rhowch resymau dros eich ateb.

Ysgrifennwch yma:

**Cwestiwn 10:** Mae dogfen gyfarwyddyd wedi'i drafftio i awdurdodau lleol ei hystyried wrth weithredu'r Rheoliadau. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnwys y canllawiau hyn? Ydych chi'n credu y byddai canllawiau ychwanegol mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth benodol y Rheoliadau yn ddefnyddiol? Rhowch resymau dros eich ateb.

Ysgrifennwch yma:

**Cwestiwn 11:** Rydym yn cynnig cyfnod trwydded tair blynedd ar gyfer pob arddangosfa anifeiliaid trwyddedig. Ydy hyn yn briodol neu ydych chi'n credu y dylid cynnig y dewis o ddarparu trwydded am gyfnod byrrach? Rhowch resymau dros eich ateb.

Ysgrifennwch yma:

**Cwestiwn 12:** Yn ymgynghoriad 2017, roedd 60% o'r ymatebwyr yn teimlo y gallai arddangosfeydd anifeiliaid gael effaith negyddol ar agweddau plant a phobl ifanc tuag at anifeiliaid, er enghraifft drwy eu hystyried yn bethau chwarae neu'n nwyddau. Ar y llaw arall, roedd llawer o'r ymatebwyr yn credu y gallai arddangosfeydd anifeiliaid wneud cyfraniad allweddol o ran cyflwyno plant a phobl ifanc i anifeiliaid dan amgylchedd rheoledig, ac os ydynt yn cael eu rheoli'n dda, cyfrannu'n bositif at addysgu plant, pobl ifanc ac oedolion.

Yn Atodlen 1, mae paragraff 8 (9) yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y drwydded "pan fo'n bosibl, hybu addysg ac ymwybyddiaeth y cyhoedd, ac agweddau parchus a chyfrifol mewn perthynas â'r rhywogaeth sy'n cael ei harddangos." Teimlwn y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau plant a phobl ifanc tuag at anifeiliaid, gydag arddangoswyr anifeiliaid yn arwain drwy esiampl er mwyn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o berchnogion a cheidwaid anifeiliaid. Ydych chi'n cytuno? Rhowch resymau dros eich ateb.

Ysgrifennwch yma:

**Cwestiwn 13**: Mae rhai achosion lle gall anifail gael ei arddangos am reswm ar wahân i adloniant neu addysg. Er enghraifft, at ddibenion addurnol (megis tanc pysgod mewn bwyty) neu anifeiliaid wedi'u bridio i'w gwerthu (e.e. da byw, adar ysglyfaethus, ceffylau neu anifeiliaid anwes eraill). Fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, ni fyddem yn disgwyl i arddangosfeydd o'r fath fod yn rhan o gwmpas gweithgareddau trwyddedig.

Mae Adran 9 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn gosod dyletswydd ar y sawl sy'n gyfrifol am anifail i sicrhau ei les. Mae'n drosedd peidio â gwneud hyn. Felly, a oes unrhyw weithgareddau penodol y teimlwch y dylid eu cynnwys yn y Rheoliadau, nad ydynt wedi'u diogelu mewn mannau eraill? Rhowch resymau dros eich ateb.

Ysgrifennwch yma:

**Cwestiwn 14**: Hoffem wybod eich barn ar effeithiau posibl y Rheoliadau drafft ar bobl â nodweddion gwarchodedig yn unol â diffiniadau Deddf Cydraddoldeb 2010[11]. Dyma ' r nodweddion hyn:

- oedran;
- anabledd;
- ailbennu rhywedd;
- priodas a phartneriaeth sifil;
- beichiogrwydd a mamolaeth;
- hil;
- crefydd neu gred;
- rhyw; a
- cyfeiriadedd rhywiol. Beth fyddai’r effeithiau hyn?

Ysgrifennwch yma:

**Cwestiwn 15**: Hoffem wybod eich barn ynghylch a allai’r Rheoliadau drafft gynnig unrhyw gyfleoedd i wrthdroi’r dirywiad ym mioamrywiaeth Cymru, yn unol â Chynllun Adfer Natur Cymru.[12]

Beth fyddai’r effeithiau hyn?

Ysgrifennwch yma:

**Cwestiwn 16:** Hoffem gael eich barn ar effeithiau’r Rheoliadau drafft ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Beth fyddai’r effeithiau hyn?

Ysgrifennwch yma:

**Cwestiwn 17**: Eglurwch hefyd sut rydych chi’n credu y gallai’r Rheoliadau drafft gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Ysgrifennwch yma:

---

[11] www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents
[12] https://www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Adfer-Natur-Cymru

**Cwestiwn 18**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael â nhw'n benodol, neu os oes gennych unrhyw sylwadau ar agweddau penodol ar y Rheoliadau neu’r Canllawiau drafft, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi. Darparwch gymaint ag sy’n bosib o fanylion.

Ysgrifennwch yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma.